

## **Datblygu Rhanbarthol yn Tanseilio Democratiaeth Leol a Gweinyddiaeth Gymraeg**

(1) Mynegwn ein pryder fod sefydliadau rhanbarthol yn cipio grymoedd cynghorau sir Cymru, ac yn disodli democratiaeth leol. Credwn fod y modd y mae Llywodraeth Cymru'n dawl ganoli grym, heb drafodaeth ddemocrataidd ar ad-drefniant llywodraeth leol, yn debyg i ymdrech llywodraeth Llundain i ddwyn yn dawl rymoedd o Gymru trwy weithgarwch yn sgil Brexit.

Nodwn fod consortiwm ERW wedi cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu cwricwlwm, hyfforddiant addysgol proffesiynol a llawer o feysydd eraill heb oruchwyliaeth ddemocrataidd leol, a bod y cyfan yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, gan ddatblygu trefn unffurf trwy Ddyfed, Powys gyfan ac Abertawe. Mae hyn yn tanseilio ymgyrch rhanbarth Caerfyrddin i wneud y Gymraeg yn gyfrwng naturiol ein hysgolion, ac yn brif iaith weinyddol yr adran addysg.

(2) Nodwn fod yr un duedd yn nhrefniant Dinas-Ranbarth Abertawe i drin Sir Gaerfyrddin fel trefedigaeth fewnol o ran datblygiadau economaidd a thai, yn hytrach na ffurfio polisïau sy'n cydweddu ag anghenion ein cymunedau lleol. Nodwn fod datblygiadau "rhanbarthol" yn bygwth datblygu cymunedol a gweinyddiaeth Gymraeg trwy'r wlad e.e. yng Ngwynedd ac Ynys Môn hefyd.

(3) Galwn ar Lywodraeth Cymru i roi terfyn ar y datblygiadau annemocrataidd hyn, ac yn hytrach greu trefn sy'n seiliedig ar gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a pharchu ewyllys cymunedau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg yn awr yn brif gyfrwng addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus a sicrhau llwybr fel y gall pob cymuned symud tuag at hyn dros gyfnod o amser.

(4) Os gorfodir yn ymarferol sefydliadau rhanbarthol ar Gymru, mynnwn fod y llywodraeth yn cymryd i ystyriaeth y gofynion ieithyddol ac yn hybu trefnu ar y cyd rhwng siroedd Dyfed, Gwynedd ac Ynys Môn gan sicrhau mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gweinyddiaeth y mentrau hyn a bod nod clir o gynnal a datblygu cymunedau Gymraeg. Cydnabyddwn y byddai angen amser neu drefniadau arbennig i rai ardaloedd fel De Penfro i gydymffurfio â hyn. Byddai angen hefyd sicrhau fod mentrau rhanbarthol mewn manau eraill o'r wlad hefyd yn diogelu hawliau ieithyddol presennol ac yn cyflwyno strategaethau clir i'w datblygu yn yr ardaloedd o fewn eu gofal.

*Cynigir gan Ranbarth Sir Gaerfyrddin*

### **Cyfrifoldebau**

Mae ansicrwydd ymhlith aelodau ynglŷn â chyfrifoldebau swyddogion gwirfoddol y rhanbarthau a rôl y celloedd a'r rhanbarthau. Gofynnwn i'r Grŵp Gweinyddol greu strwythur clir o gyfrifoldebau'r Senedd, Pwyllgorau Rhanbarth a Chelloedd a'r cysylltiadau rhyngddynt.

*Cynigir gan Ranbarth Ceredigion*

### **Cyfansoddiad y Gymdeithas**

Cadarnha'r Cyfarfod Cyffredinol fod gan Senedd y Gymdeithas y grym i godi arian at ddibenion y mudiad, sy'n cynnwys y grym i sefydlu cwmnïau masnachol lled-braich.

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*

### **Cynlluniau Codi Arian**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ei benderfyniad yn 2016 fod gwir angen i'r Gymdeithas godi rhagor o arian er mwyn sicrhau cynaladwyedd ariannol y mudiad. Nodwn ymhellach fod Cyngor Gymdeithas yr Iaith wedi cytuno y dylai grŵp o unigolion ymchwilio i fentrau masnachol newydd er mwyn codi arian.

Cytunwn i roi'r hawl i Senedd y Gymdeithas i fuddsoddi er mwyn sefydlu cwmni lled-braich i ddarparu gwasanaeth cyfieithu, gan ystyried datblygu i feysydd eraill ar ôl ymsefydlu.

Prif ddiben y cwmni fydd codi arian i'r Gymdeithas. Ar ben hynny, byddai dymuniad i roi'n ôl i'r gymuned a'r Gymraeg drwy, er enghraifft, wneud gwaith cyfieithu yn rhad ac am ddim neu ar delerau ffafriol i fusnesau bychain. Byddai cyfran o'r incwm yn mynd yn ôl i'r gweithwyr fel cydnabyddiaeth ychwanegol yn ogystal. Bydd arwahanrwydd clir rhwng gwaith rhedeg y cwmni o ddydd i ddydd a maes gwaith y Gymdeithas.

Cytunwn i sefydlu is-grŵp o'r grŵp gweinyddol i gychwyn y cwmni ac i ymwneud â'i weithrediad bob dydd.

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*

## **Astudiaeth i effaith hirdymor Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Lleol**

Galwn ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gomisiynu astudiaeth annibynnol er mwyn casglu tystiolaeth a hwyluso dealltwriaeth drwyadl o effaith hirdymor cynlluniau datblygu awdurdodau lleol, yn enwedig datblygiadau tai, ar gymunedau lle y bu o leiaf 25% yn medru'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991. Yn ogystal â datblygiadau o dai, dylid ystyried effaith polisïau datblygu eraill ar yr iaith, gan gynnwys cyfyngiadau ar deuluoedd lleol rhag codi tai y tu allan i ffiniau cymdogaethau.

Amcan y gwaith ymchwil hwn fyddai creu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol wrth iddynt ddiwygio eu polisïau a'u cynlluniau datblygu lleol.

*Cynigir gan Ranbarth Sir Gaerfyrddin*

## **Rhyddid i Gymru**

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn ailddatgan awydd Cymdeithas yr Iaith i weld rhyddid cenedlaethol llawn i Gymru, a hynny fel bod modd grymuso'n pobl i ddatblygu ein diwylliant fel cyfraniad at wareiddiad y byd, ac i ddatblygu ein cyfundrefnau cymdeithasol-economaidd fel esiampl i'r byd. Datganwn ein hawydd i weld y Gymraeg yn cael ei derbyn yn llawn ymhlith ieithoedd a diwylliannau'r byd, ac i Gymru hithau gymryd ei lle mewn sefydliadau cydwladol. Datganwn mai dim ond trwy gymryd ein lle yn y byd fel Cymry yr enillwn ein rhyddid ein hunain.

Ailddatganwn fod ennill rhyddid cenedlaethol llawn i Gymru'n golygu llawer yn fwy nag un newid cyfansoddiadol yn unig. Yn ogystal â sicrhau grymoedd llawn i senedd Cymru a rhyddid iddi wneud cytundebau cydwladol, golyga hefyd ryddhau a grymuso cymunedau lleol Cymru.

Ailddatganwn fod rhyddid llawn yn golygu grymuso ieuenctid Cymru fel y bydd y cyfrifoldeb a'r gallu ganddynt i lunio Cymru'r dyfodol.

Golyga hefyd ryddid a chyfrifoldeb i weithwyr ym mhob sector o economi Cymru o ran llunio strategaeth eu mentrau. Golyga hefyd roi grymoedd i fyfyrwyr yn ein sefydliadau addysgol i gyfrannu at yr hyn sy'n digwydd yn y sefydliadau, a golyga ddatblygu cwricwlwm Cymreig sy'n eu grymuso gyda'r wybodaeth a sgiliau hanfodol i gymryd rhan lawn yn y ddemocratiaeth Gymreig newydd.

Ailddatganwn na ddylid amddifadu unrhyw garfan o ran llawn yn y rhyddid hwn, a bod croeso i bawb sydd am ddod i gyfrannu at y Gymru newydd.

Galwn ar senedd a rhanbarthau'r Gymdeithas i lunio ein hymgyrchoedd a'n digwyddiadau fel camau tuag at ryddid cenedlaethol llawn, a galwn am drafodaeth agored ym mhob sector o fywyd Cymru am sut y gall pawb gyfrannu at y Gymru newydd.

*Cynigir gan Senedd y Gymdeithas*

## **Y Cymro**

Grŵp Dyfodol Digidol Cymdeithas Yr Iaith sy'n gyfrifol am ymgyrchu dros gyfryngau cryf i Gymru, ar draws pob cyfrwng. Cytuna'r cyfarfod hwn bod y wasg Gymreig yn rhan bwysig o hyn ac felly, cefnogwn mewn egwyddor yr angen am bapur newydd Cymraeg yn absenoldeb Y Cymro gan gofio gall ysgogi diddordeb mewn Addysg, Hawliau i'r Gymraeg a Chymunedau Cynaliadwy.

*Cynigir gan Ranbarth Morgannwg a Gwent*

## **Amddiffyn cymunedau amaethyddol**

Yn sgil Brexit, nodwn y peryglon i'r diwydiant amaeth, yn bennaf oherwydd y bygythiad i farchnadoedd tramor. Nodwn bwysigrwydd y diwydiant amaeth i gymunedau gwledig a threfol Cymru ac i'r Gymraeg.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol hwn ein bod yn cydweithio â'r grwpiau o fewn y diwydiant amaeth er budd y Gymraeg a'n cymunedau. Cyfarwyddwn ein grwpiau, wrth wneud penderfyniadau, i ystyried sut i gydweithio â'r diwydiant amaeth. Penderfynwn y dylai'r Grŵp Cymunedau Cynaliadwy yn benodol gydlynu hyn, a sicrhau bod cydweithio, yng ngwir ystyr y gair, yn digwydd.

*Cynir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith*